

Cofnodion

Teitl y Cyfarfod:	Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol
Lleoliad:	Cyfarfod ar Microsoft Teams
Dyddiad y Cyfarfod:	10 Gorffennaf 2023
Aelodau'n bresennol:	Rhys A. Jones, Aelod Bwrdd CNC (Cadeirydd) Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA) David Ball, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) Ieuan S. Davies, CNC Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin (CFF) Chris R. Thomas, CNC Einir Williams, Cyswllt Ffermio Gareth Parry, UAC Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru Katy Simmons, CNC Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Gaerfyrddin
Hefyd yn bresennol:	Aled Jones, Pruex Ltd
Ymddiheuriadau:	Brad Welch, CNC Kate Snow, United Utilities Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) Matt Walters, Llywodraeth Cymru Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru Sarah Hetherington, CNC
Ysgrifenyddiaeth:	Bronwen Martin, CNC

Eitem 1. Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiad o Fuddiant

1. Estynnodd yr Athro Rhys A. Jones (Aelod Bwrdd CNC a Chadeirydd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru) groeso i bawb i gyfarfod Microsoft Teams a nodi'r ymddiheuriadau.
2. Mae'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion dal y cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.
3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.

- DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw fater ar yr agenda.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a Chamau Gweithredu

4. Ar ôl i'r grŵp adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd Rhys y bydd y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Mai. Roedd Creighton Harvey, CFF eisoes wedi anfon rhai sylwadau gan awgrymu gwelliannau i Bronwen cyn y cyfarfod. Bydd Bronwen yn archwilio'r recordiad ac yn diwygio'r cofnodion yn unol â hynny cyn eu dosbarthu o'r newydd i'r grŵp.

Llygredd Amaethyddol Gorffennaf 01: Bronwen Martin i ddarparu ailadroddiad o gofnodion cyfarfod mis Mai i'r grŵp eu hadolygu.

6. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach nac unrhyw awgrymiadau o ddiwygiadau mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Mai.

Eitem 3. Materion yn Codi

7. Anogwyd y grŵp i drafod unrhyw faterion a oedd yn codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol, dogfennau perthnasol, neu bynciau diweddar.
8. Ni chodwyd unrhyw faterion a oedd yn codi gan y grŵp.

Eitem 4. Trafodaeth ar Ymweliad Safle

9. Cynhaliwyd ymweliad safle gan Grŵp Dŵr y Bannau (BWG) a Dŵr Cymru Welsh Water ar 19 Mehefin. Roedd hwn yn gyfle i gael trafodaeth ddilynol am yr arsylwadau. Dosbarthwyd nodyn cryno byr cyn y cyfarfod i lywio'r sgwrs hon.
10. Rhoddodd Rhys drosolwg byr o'r ymweliad safle i'r rhai nad oedd yn bresennol.
11. Dywedodd Gareth Parry, UAC o'i safbwynt ef, ei bod yn hynod ddefnyddiol fel aelod newydd o'r grŵp i gwrdd â phobl wyneb yn wyneb. Dywedodd Gareth mai'r wers fwyaf iddo ef o'r ymweliad oedd pwysigrwydd cydweithio. Dangosodd y ffermwyr y gwaith dalgylch cydweithredol y maent wedi bod yn ei wneud megis defnyddio'r gorsafoedd tywydd i wneud penderfyniadau gwybodus am reoli maetholion. Cafodd y fenter honno ei chynnwys hefyd i ddatblygu mesurau amgen ar gyfer Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, felly roedd yn bwysig iawn cael cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yno i'w gweld yn uniongyrchol. Mae'n bwysig iawn i ni weld y pethau hyn yn bersonol er mwyn deall a allai hyn fod yn gweithio ledled Cymru, naill ai ar raddfa fferm unigol neu ddalgylch. Atgoffodd Gareth y grŵp bod y Rheoliadau ar gyfer Cymru gyfan, ond gobeithio y gall y mathau hyn o ddewisiadau amgen helpu i gyfrannu at yr adolygiad.
12. Dywedodd Sarah Jones, DCWW ei bod yn beth da eu bod wedi ysgogi'r ymweliad â'r safle ar gyfer y grŵp. Roedd yn bwysig i'r grŵp hwn weld peth o'r gwaith y mae DCWW yn ei gefnogi. Mae DCWW hefyd yn ystyried sut y gellir cofnodi'r gwaith hwn fel astudiaethau achos, felly bod y wybodaeth yn cyrraedd y bobl gywir. Roedd Sarah yn gwerthfawrogi nad oedd pawb yn gallu dod i'r ymweliad safle, ond roedd yn ddefnyddiol

i'r rhai a oedd yn medru bod yn bresennol. Gellid rhannu astudiaeth achos ysgrifenedig yn ehangach i ddangos manteision cydweithio.

13. Diolchodd Rhys i Sarah a'i chydweithwyr yn DCWW am sicrhau bod yr ymweliad yn rhedeg yn esmwyth. Soniodd Rhys fod amrywiaeth o faterion wedi eu trafod tua diwedd yr ymweliad. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys sut y gellir rhannu'r negeseuon yn ehangach a sut y gellir ailadrodd y math hwn o waith mewn rhannau eraill o Gymru. Trafododd y grŵp wahanol arferion ffermio, defnyddio technoleg a datblygu rhwydweithiau dibynadwy. Gofynnodd Rhys i'r grŵp i ba raddau y gellir cyflwyno pethau'n ehangach, heb orfod o reidrydd sefydlu rhwydwaith o ymddiriedaeth rhwng y ffermwyr. Efallai y byddai'n haws cyflwyno rhai o'r atebion technolegol fel gorsafoddydd a'r defnydd o fapio hydrolegol. Dywedodd Sarah fod y gorsafoddydd tywydd yn rhywbeth y gellid ei gyflwyno ac yn y gorffennol mae John Owen, Gelli Aur wedi trafod sut olwg allai fod ar y broses honno. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai hynny'n dod ar gost i'r ffermwr neu grŵp o ffermwyr.
14. Dywedodd Creighton fod Mega-Ddalgyrch Bannau Brycheiniog ar frig y dalgyrch ac mae'n ardal cynaeafu dŵr felly gallwch weld pam fod gan DCWW ddiddordeb yn hynny yn dilyn Prosiect Catskills yn nhalaith Efrog Newydd. O ran y gorsafoddydd tywydd, bu cwestiynau erioed ynghylch y cyfnod caeedig o fewn y Rheoliadau ac roedd yr Is-Grŵp Mesurau Amgen yn ystyried gorsafoddydd tywydd ac yn cynnwys hyn yn yr adroddiad, yn amodol ar reolaethau. Awgrymodd Creighton y dylid cael elfen o annibyniaeth o ran gosod y paramedrau hefyd. Er enghraifft, os oes gennych fuches laeth 500 pen, gallai'r pwysau o reoli'ch slyri ddod yn hanfodol ar y safle hwnnw oherwydd tywydd neu efallai oherwydd nad yw'r rheolaeth yr hyn y dylai fod, ac mae'n bwysig bod person neu gorff annibynnol yn rhan o osod y paramedrau.
15. Dywedodd Gareth er mai Gelli Aur yw'r rhai sydd wedi datblygu a threialu'r gorsafoddydd tywydd yma ar eu fferm eu hunain, mae'n ap annibynnol. Mae cael y wybodaeth ohoni unwaith y bydd wedi'i gosod, yn gymharol syml. Bydd cael y fenter hon mewn gwahanol rannau o Gymru yn anodd ar hyn o bryd oherwydd bod yna nifer o ffermwyr sy'n gwybod bod angen iddynt fuddsoddi swm sylweddol o arian i gael eu storio'n iawn. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gymhelliant i ffermwyr edrych ar ddewisiadau eraill oherwydd bod ffermwyr yn gwybod, er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau, y gallai fod angen iddynt adeiladu manau storio slyri newydd, neu gladdfeydd silwair. Fodd bynnag, pe bai opsiwn naill ai i adeiladu man storio slyri newydd neu osod gorsaf dywydd yn rhatach o lawer, yna gallai pobl ei ystyried. Roedd ffermwyr Grŵp Dŵr y Bannau mewn sefyllfa ffodus bod ganddyn nhw system â'r wrthbwysu llawer o'r problemau y byddai system laeth efallai yn eu profi. Roedd Rhys yn cofio bod gorsaf dywydd tua £5000.
16. Dywedodd Chris Thomas fod paramedrau'r gorsafoddydd tywydd wedi'u gosod fel safon y diwydiant gyda sail wyddonol ar gyfer tymheredd pridd, lleithder pridd ac ati. Dywedodd Chris ei fod wedi gweld llawer o storfeydd slyri newydd yn mynd i mewn ac efallai bod hyn yn dangos bod y diwydiant wedi cydnabod y broblem. Esboniodd Chris fod llawer o storfeydd slyri a osodwyd yn yr 80au a'r 90au bellach yn dod i ddiwedd eu hoes. Dywedodd Chris na ddylai fod yn achos o naill ai / neu a dylai ffermwyr yn y sefyllfaoedd hynny osod storfa slyri newydd a phan fo'n briodol (ac yn bosibl), ystyried gorsaf dywydd hefyd.

17. Awgrymodd Rhys fod angen i'r grŵp feddwl am sut y gallwn symud ymlaen gyda hyn. Mae'n rhan o ddeall gwerth ymweliad safle a sut y gall hynny drosi at wneud rhywbeth, er enghraifft dod o hyd i ffyrdd o gyfleu rhywfaint o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni. Yn amlwg, gall y gwahanol aelodau a gynrychiolir yma fynd â'r negeseuon yn ôl i'w sefydliadau priodol. Mae angen i ni sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyfleu i wahanol bobl a hefyd ddod o hyd i ffyrdd o hyrwyddo rhai o'r gweithgareddau hyn.

Eitem 5. Cyflwyniad: Pruex Ltd

18. Ymunodd Aled Davies, Pruex Ltd â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar yr ymchwil a'r datblygiad y mae ei sefydliad yn ei wneud. Dywedodd Aled mai nod Pruex fel cwmni yw'r defnydd doeth o wrthfotigau yn hytrach na defnydd gormodol o wrthfotigau. Yn 2014, dyfarnwyd ysgoloriaeth maes i Aled a noddwyd gan Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru i edrych ar y defnydd o wrthfotigau mewn amaethyddiaeth, dyframaeth a defnydd dynol.
19. Eglurodd Aled fod ei daid wedi marw yn 1950 o doriad heintiedig ond byddai penisilin wedi achub ei fywyd - dywedodd Aled fod ganddo alergedd i benisilin. Cyflwynwyd gwrthfotigau ar ôl yr Ail Ryfel Byd a nawr rydym yn wynebu dychwelyd i gyfnod cyn gwrthfotigau lle na ellir trin heintiau syml mwyach.
20. Dechreuodd Aled Pruex o ganlyniad i'r hyn a ddysgodd ar astudiaeth Nuffield ym mis Medi 2016. Mae gan Pruex depos yn Llanelli, Wexford yn Iwerddon a Durban yn Ne Affrica. Maent hefyd yn cynhyrchu cynhyrchion yn Johannesburg.
21. Mae Pruex yn ceisio darparu aer a dŵr glân i anifeiliaid (nid anifeiliaid amaethyddol yn unig) a phobl. Drwy wneud hynny, mae'n lleihau'r risg o facteria ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR), heintiau a llygredd amgylcheddol. Y dechnoleg y maent yn ei defnyddio yw bioadfer. Mae Pruex yn disodli bacteria a allai fod yn bathogenig neu'n gwrthsefyll mewn amgylcheddau dynol ac anifeiliaid gyda bacteria nad ydynt yn heintus, sy'n llesol i'r amgylchedd sy'n adeiladu pridd iach. Rhoddodd Aled esboniad o ddiagram sy'n dangos lle mae bacteria sy'n gwrthsefyll a sut maen nhw'n rhyngweithio â phobl ac anifeiliaid (e.e., rhoi baw neu slwtsh wedi'i heintio/llygru ar dir).
22. Amlinellodd Aled rai o'r problemau ar y fferm y mae Pruex yn mynd i'r afael â nhw fel protosoa bacterol, heintiau firaol a llygredd amgylcheddol. Trwy ddominyddu'r amgylcheddau lle cedwir anifeiliaid a lleihau pethau fel ocsid nitraidd ac amonia, yna pan fydd y baw yn mynd i dir rydych chi'n cael pridd gwell a llai o angen am wrteithiau synthetig. Felly, rydym yn cadw anifeiliaid a'u hamgylcheddau'n iach ac yn atal llygredd amgylcheddol.
23. Mae gan Pruex strategaeth sydd wedi'i rhannu'n dair elfen - canfod, trwsio a dweud. Mae Pruex yn ymweld â ffermydd i gymryd swabiau o'r dŵr a'r amgylchedd presennol sy'n cael eu hanfon i'r labordy. Mae Pruex hefyd yn defnyddio pyrth a synwryddion Rhwydweithiau Ardal Eang Ystod Hir (LoRaWAN) i fesur ansawdd yr aer yn yr adeiladau a'r newidynnau a all effeithio ar ansawdd aer. Mae'r synwryddion hyn yn mesur tymheredd a lleithder, amonia a charbon deuocsid. Rydym hefyd yn mesur y tymheredd a'r lleithder, pwynt gwlith, cyfeiriad y gwynt ac amryw bamedrau tywydd eraill y tu allan i'r adeilad. Dros amser gallwn weld yr effaith ar gynhyrchu amonia. O ran yr agwedd 'trwsio' ar gyfer eu gwaith, dangosodd Aled rai fideos o gydweithwyr Pruex yn chwistrellu bacteria diheintiol ar y fferm i mewn i amgylcheddau'r anifeiliaid. Mae'r weithred hon yn newid y bacteria sydd yn y baw. Yna mae'n dominyddu mewn

bacteria pridd nad yw'n heintus yn hytrach na bacteria sy'n halogi sydd o bosibl yn bathogenig. Dangosodd Aled gafn dŵr gyda bioffilm. Ni all diheintydd ladd y bacteria ar y tu mewn i'r llysnafedd hwnnw, dim ond lladd y bacteria planctonig sydd ar yr arwynebau. Dangosodd Aled algâu'n blodeuo mewn cafn dŵr arall lle mae'r algâu yn bwydo oddi ar y bioffilm ar ymyl y cafn. Dangosodd Aled y gwahaniaeth yn y dŵr ar ôl ei drin. O ran y rhan 'dweud' o waith Pruex, cafodd Aled wahoddiad i gyflwyno eu gwaith ar fioffilmiau i dros 45 o newyddiadurwyr amaethyddol rhyngwladol ac mae Pruex wedi derbyn sawl gwobr am arloesedd. Mae Pruex wedi dangos y gallant ddatrys llawer o'r problemau ar ffermydd sydd yn eu tro yn lleihau biliau milfeddygon y fferm, yn lleihau biliau porthiant y fferm ac yn datblygu pridd gwell.

24. Disgrifiodd Aled rai o'r atebion ymarferol y maent wedi'u cymhwyso i wahanol fentrau amaethyddol a dangos lluniau a diagramau i'w dangos.
25. Daeth Aled â'r cyflwyniad i ben drwy ddarparu enghraifft o rywfaint o waith y maent wedi bod yn ei wneud yn Affrica. Mae Corran Farming wedi'i leoli ar lannau Llyn Malawi ac wedi partneru gyda Pruex yn 2018. Mae ffermio crocodeil yn ymwneud ag ansawdd croen ac mae Corran Farming yn defnyddio Pruex oherwydd bod cwsmeriaid yn Ewrop eisiau dod o hyd i grwyn gan ffermwyr sydd o ddifrif am ffermio mewn modd amgylcheddol gyfrifol a chynaliadwy. Yn draddodiadol byddai fferm crocodeil yn defnyddio llawer o gemegau trwm wrth lanhau'r corlannau. Gostyngodd Pruex y defnydd o wrthfotigau gan gadw'r anifeiliaid yn iach gyda phrobiotegau. Maent yn defnyddio cemegau naturiol nad ydynt yn effeithio ar y crocodeiliaid na'r cyflenwad dŵr unwaith y bydd wedi bod trwy'r system.
26. Dywedodd Gareth ei fod yn cofio Aled yn cyflwyno i Bwyllgor Iechyd a Lles Anifeiliaid UAC ym mis Chwefror 2020, ac mae'n dda gweld sut mae pethau wedi symud ymlaen ers hynny. Gofynnodd Gareth faint o ffermwyr yng Nghymru sy'n defnyddio'r cynnyrch hwn. Dywedodd Aled nad oedd ganddo ffigyrau penodol i Gymru, ond yn y DU rydyn ni ar tua 3200 o ffermydd, mae hynny'n gymysgedd o laeth, dofednod, rydyn ni wedi colli llawer o'n cwsmeriaid moch yn ystod y cyfnod ar ôl Covid ac effaith y rhyfel yn Wcráin ar fwydo. Yn Ewrop, tua 1000 o ffermydd, ac yna rhai ffermydd yn Affrica.

Awgrymodd Gareth efallai y dylai'r grŵp hwn ystyried sut, o ganlyniad i ddefnyddio'r cynnyrch hwn, y bydd y deunydd yn cael ei ystyried yn y dyfodol oherwydd nad tail ydyw o reidrydd. Dywedodd Aled ei fod yn cael ei alw'n swbstrad positif (PDS) yn hytrach na slyri.
27. Trafododd Aled amonia a rhoddodd enghreifftiau o fesurau lliniaru gan ddefnyddio systemau a thechnoleg Pruex.
28. Roedd leuan yn cofio trafodaeth gynharach Aled am lefelau maeth oedd yn y baw mewn siediau brwyliad a'r defnydd o gynnyrch Pruex. Awgrymodd leuan y gallai fod rhyngweithio o fewn system dreulio'r brwyliad neu'r gwartheg a gofynnodd a allai'r cynnyrch ymyrryd â photensial cymeriant maethol yr anifeiliaid sy'n dod i gysylltiad ag ef (e.e., potensial ar gyfer cig yn llawn maetholion). Dywedodd Aled nad chwistrellu ar y sbwriel yn unig mohono; Rydyn ni hefyd yn defnyddio'r bacteria mewn dŵr i leihau'r tocsinau o fioffilm yn y dŵr ac felly mae'r adar yn treulio rhai o'r bacteria hefyd. Mae'r dechnoleg yn cael ei rheoleiddio fel glanedydd bacteriol ac mae agwedd diogelwch y cynhyrchion yn hysbys ac yn cael eu rheoleiddio. O ran dosbarthiad gwirioneddol y cynnyrch, eglurodd Aled pe byddent yn ychwanegu dau gemegyn arall at y cynnyrch, byddai ganddo statws o fudd i'r amgylchedd. Fodd bynnag, fel y mae, mae'r cynnyrch mewn gwirionedd yn well na statws sy'n fuddiol i'r amgylchedd ac os ydynt yn

ychwanegu ychydig mwy o gemegau i gyrraedd y lefel sy'n fuddiol i'r amgylchedd, byddai'n gynnyrch gwaeth na'r hyn ydyw heddiw.

Gofynnodd Ieuan a all Pruex fesur nifer yr adar sy'n derbyn maeth mewn amgylchedd caeedig. Gan ddefnyddio sied brwyliaid fel enghraifft, dywedodd Aled fod yr adar hyn fel arfer yn y siediau am 36 diwrnod, ond eu bod mewn gwirionedd yn cael yr adar i 2 1/2 cilogram mewn 34 diwrnod yn hytrach na 36, felly rydym yn gweld budd trosi porthiant ar unwaith. Rydym yn cymryd bacteria pridd ac yn ei gymhwyso i facteria ysgarthol yn y sied ac yn defnyddio'r effaith ar synhwyro cworwm ac allgáu cystadleuol i newid cynnwys y baw. Mae hynny'n golygu bod yr adar yn anadlu llai o amonia, yn anadlu llai o ocsid nitraidd a hefyd yn yfed llai o docsinau. Nid ydym yn gwneud unrhyw beth gyda'u bwyd anifeiliaid gwirioneddol ond trwy wella eu hamgylchedd ac ansawdd aer, mae llai o docsinau yn cyrraedd y porthiant y maent yn ei fwyta. Dywedodd Aled fod gan Pruex brosiect arloesol sy'n dechrau ar 1 Awst lle byddan nhw'n gwneud gwaith pellach ar hyn, ond o ran diraddio ansawdd bwyd, byddai'r gwrthwyneb yn wir oherwydd bod llai o docsinau yn cael eu bwyta.

Awgrymodd Ieuan y gallai fod angen iddynt wneud mwy o ymchwil i ddadansoddi cig yr ieir oherwydd bod pryderon yn y diwydiant bwyd ynghylch dwysedd maetholion o wahanol gynhyrchion ar draws amaethyddiaeth.

29. Roedd Creighton yn cofio'r drafodaeth am frwyliaid yn gweithredu mewn system gaeedig lle mae llawer mwy o reolaeth dros y cynnyrch. Gofynnodd Creighton a oes defnydd ar gyfer cynhyrchwyr wyau ac os felly, beth fyddai'r budd. Dywedodd Aled fod busnes Pruex ar yr ochr amaethyddol tua 40% llaeth a 40% dofednod, ac o'r 40% dofednod hwnnw, mae tua 80% o'r rheiny'n ieir dodwy neu'n fridwyr brwyliaid ac mae'r ddau'n cynhyrchu wyau iach. Rhoddodd Aled enghraifft o'r manteision a welwyd ganddynt ar ffermydd gydag adar dodwy lle defnyddiwyd eu cynnyrch gan gynnwys faint o wyau a gynhyrchir, ansawdd y gragen, effaith ar faw a charthu, ansawdd aer, iechyd cyffredinol yr adar a buddion economaidd dilynol. Gofynnodd Creighton am y sefyllfa mewn systemau ieir maes. Dywedodd Aled mai dim ond ychydig o systemau sydd ganddyn nhw nad ydynt yn systemau wyau maes. Mae'r mwyafrif ar strwythurau o fath ffrâm ddringo a systemau hen ffasiwn o'r enw dec fflat lle mae'r adar ar estyll. Esboniodd Aled yr effaith ar iechyd a lles anifeiliaid. Soniodd Creighton ei fod yn poeni am yr hyn sy'n gadael yr anifail, beth sy'n mynd i'r ddaear a beth sy'n mynd i mewn i'r afonydd. O ran systemau ieir maes, pa fudd sydd gan eich system a fyddai'n lleihau faint o faetholion sy'n cael eu colli o systemau ieir maes i'r amgylchedd. Dywedodd Aled eu bod yn rhoi bacteria mewn dŵr sydd wedyn yn dod trwy'r adar i'r baw. Os oedd yr adar yn carthu allan ar y maes, yna rydym eisoes wedi dechrau'r broses o rwymo'r ffosforws a'r nitrogen i mewn i gorff y bacteria sy'n dod drwodd. Er mwyn cadw'r anifail yn iach, mae'n rhaid i ni fynd â'r ffosforws a'r nitrogen i gorff y bacteria fel nad yw'r nitrogen yn cael ei ryddhau fel naill ai ocsid nitraidd neu amoniwm, oherwydd dyna sy'n gwneud yr aderyn yn sâl. Os oes bacteria gwenwynig yn yr aer, y dŵr a'r porthiant, yr un sy'n cael yr effaith fwyaf ar system imiwedd yr anifail hwnnw yw'r aer y mae'n ei anadlu. Mae siarad am iechyd yr anifail a gallu llygrol ei faw'r un peth. Er mwyn cadw'r anifeiliaid yn iach, mae'n rhaid i ni droi'r baw sy'n eu hamgylchynu i mewn i bridd yn y sied cyn iddo fynd allan i'r maes ac wedi hynny cyn iddo fynd i'r tir ac i'r afon. Gall algâu ddefnyddio ffosforws a nitrogen ar unrhyw ffurf ac mae angen bacteria a ffwng ar blanhigyn i allu dal y maetholion hynny. Os byddwn yn mynd â slyri neu faw dofednod i'r tir, ni all y fioleg yn y pridd ei brosesu'n gyflym, felly mae'n mynd i'r afon. Yn y bôn, rydym yn gwneud y broses honno yn y sied cyn iddi gyrraedd y tir. Gofynnodd Creighton a oes budd amgylcheddol o gael system Pruex wedi'i ddefnyddio o fewn sied

er bod yr aderyn yn mynd allan i'r cae ac yn ysgarthu yn y cae hwnnw. Dywedodd Aled oes, 100%.

30. Roedd Rachel yn cofio bod Aled wedi sôn nad yw CNC yn cydnabod bioadferiad ar hyn o bryd fel techneg orau sydd ar gael o ran trwyddedu. Gofynnodd Rachel am eglurhad a gofynnodd beth mae Pruex yn ei wneud o ran adeiladu'r sail gwyddoniaeth a thystiolaeth i roi mwy o hyder i CNC fel y rheoleiddiwr. Dywedodd Aled fod Pruex wedi bod yn rhan o ddarparu data i Lywodraeth Cymru, Defra, Asiantaeth yr Amgylchedd, SEPA a'r cyrff cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon. Mae prosiect ar fin dechrau gyda Phrifysgol Aberystwyth lle byddant yn cymryd ein data masnachol sensitif ac yn gweithio hynny drwodd fel tystiolaeth i Lywodraeth Cymru. Mewn gwledydd eraill yn Ewrop, rydyn ni'n gwneud yr un peth. Awgrymodd Aled fod Pruex tua phum mlynedd ar y blaen i'r Prifysgolion o ran eu technoleg. Dywedodd Aled fod yn rhaid i Pruex fod yn ofalus nad ydyn nhw'n agor eu hunain yn fasnachol i gystadleuwyr. Fodd bynnag, mae Prifysgol Aberystwyth yn craffu ar y data y maent yn ei rannu ar ran Llywodraeth Cymru a bydd hynny'n caniatáu i Lywodraeth Cymru gymhwyso'r ffigurau lleihau amonia y maent eisoes yn eu cyrraedd at y system modelu aer.

Dywedodd Rachel fod hynny'n ddefnyddiol iawn oherwydd bod defnyddio'r dechnoleg yn fuddiol felly mae angen iddo ddangos tystiolaeth o hynny ac yna gall gyfrannu nid yn unig i'r rhestr amonia, ond hefyd y technegau gorau sydd ar gael wrth drwyddedu. Nododd Rachel y gallai fod goblygiadau posibl i Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Mae'n bwysig dangos tystiolaeth o hyn a gallu cydnabod bod y defnydd o'r technolegau hynny o fudd ar y fferm. Dywedodd Aled fod gan Gymru gyfle i arwain yn rhyngwladol ar hyn.

31. Diolchodd Rhys i Aled am ymuno â'r cyfarfod, mae llawer o ddatblygiadau diddorol a mwy o waith i'w wneud i ddangos tystiolaeth o hyn fel ei fod yn cael ei gydnabod fel technoleg briodol ar gyfer lleihau rhai o'r problemau llygredd ar ffermydd. Gwahoddodd Aled y rhai a oedd yn mynychu y Sioe Fawr i siarad ag ef a'i gydweithwyr am y gwaith sydd wedi ei wneud. Cynigiodd Aled hefyd drefnu ymweliad Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru â'r labordy a fferm cwsmer.

Eitem 6. Diweddariad y Grŵp Technegol Amaethyddol

32. Rhoddodd Ieuan S. Davies, CNC ddiweddariad llafar byr ar gynnydd Grŵp Technegol Amaethyddol (GTA) Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).
33. Sefydlwyd y GTA ar gais Zoe Henderson a'r cylch gorchwyl oedd adolygu a dod o hyd i gytundeb ar yr amrywiaeth eang o dystiolaeth ynghylch llygredd amaethyddol o'r gwahanol sectorau. Roedd y grŵp i edrych ar y dystiolaeth, cytuno ar yr hyn oedd ar goll ac argymhell camau (ac yn wir cymryd perchnogaeth o'r camau hynny) i lenwi'r bylchau mewn tystiolaeth.
34. Sefydlwyd y GTA fel math o Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac roedd i fod i gynhyrchu adroddiad erbyn diwedd mis Mehefin. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hwnnw wedi'i orffen eto ond mae bron wedi'i gwblhau. Mae'r grŵp wedi cytuno bod angen treulio amser ar yr adroddiad er mwyn iddo fod o ansawdd da i adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru.
35. Mae cyfarfod y GTA yr wythnos hon a chanolbwynt y cyfarfod hwnnw fydd golygu a chwblhau'r adroddiad hwnnw. Bydd y grŵp yn edrych ar yr argymhellion ac yn

ychwanegu at y rheiny'n ôl pob tebyg. Mae yna arloesi cyson a phethau fel yna yn digwydd o fewn y diwydiant ac mae angen dal y pethau hyn. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn rhychwantu'r diwydiant cyfan ac yn ymdrin â sawl agwedd o ymyriadau busnes fferm unigol i'r cyrff rheoleiddio a newidiadau systemig ledled y diwydiant hefyd.

36. Soniodd Ieuan fod trafodaethau parhaus ynghylch bywyd y grŵp ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau. Bu tipyn o ofyn gan Lywodraeth Cymru ac mae strwythur newydd y Llywodraeth Weinidogol ar gyfer cyflawni'r cynllun gweithredu ar y tai wedi cynnwys y grŵp hwn ynddo. Mae hynny fel tasai'n arwydd y gallai Llywodraeth Cymru weld y grŵp hwn yn parhau ond mae hynny hefyd yn gwestiwn i'r grŵp.
37. Gofynnodd Rhys am y bylchau mewn tystiolaeth; sut y gellid eu llenwi, beth yw'r mecanweithiau ar gyfer llenwi'r bylchau hynny, sut y gellid comisiynu ymchwil ychwanegol a phwy sy'n gwneud hynny. Dywedodd Ieuan fod yna sylwadau wedi bod yn dod trwodd ar hyd yr elfennau hynny a pherchnogaeth yr argymhellion hynny. Gallai llenwi'r bylchau mewn tystiolaeth wrth symud ymlaen fod yn bwysig iawn i ddyfodol y grŵp, a fydd y grŵp yn cael ei gynnwys yn y gwaith o weithredu'r camau hynny, a fydd yn dod nôl i'r Is-Grŵp hwn, a fydd yn cael ei roi i Lywodraeth Cymru neu'n rhan o ymchwil diwydiant ehangach (e.e. prifysgolion, cyswllt ffermio ac ati). Mae hynny wedi bod yn rhan fawr o'r drafodaeth ond mae yna lawer o ansicrwydd ar hyn o bryd. Efallai y bydd yna groesi drosodd yn y drafodaeth gyda'r grŵp hwn gyda rhywfaint o hynny.
38. Gofynnodd Rhys am yr amserlen ar gyfer cwblhau'r adroddiad. Dywedodd Ieuan ei bod hi'n gyfnod anodd oherwydd bod nifer o bobl yn cymryd gwyliau blynyddol, ond y bwriad yw ei orffen yn fuan, er nad oes terfyn pendant.
39. Gofynnodd Bronwen a fydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei ddsbarthu i'r Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru hwn neu ai ar gyfer Llywodraeth Cymru yn unig ydyw. Cadarnhaodd Ieuan y bydd yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i'r grŵp hwn.

Eitem 7. Cylchlythyr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

40. Soniodd Bronwen ei bod wedi siarad â Katy am y rhifyn nesaf o Gylchlythyr Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru; 'Ein Tir, Dŵr ac Aer'. Mae gennym rai erthyglau drafft mewn golwg sy'n ymdrin â'r ymweliad safle diweddar, cyflwyniad am Rhys ac ychydig o erthyglau eraill. Rydym yn galw ar unrhyw un i gysylltu â Katy neu Bronwen gydag awgrymiadau ar gyfer cynnwys neu bynciau. Dywedodd Bronwen mai'r bwriad yw cael y rhifyn nesaf allan cyn y Sioe Fawr, felly'r dyddiad cau i ddarparu erthyglau fydd yr wythnos nesaf. Bydd e-bost yn cael ei ddsbarthu yn dilyn y cyfarfod.

Llygredd Amaethyddol Gorffennaf 02: Bronwen Martin, CNC i ddsbarthu gwybodaeth am rifyn nesaf cylchlythyr Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Llygredd Amaethyddol Gorffennaf 03: Y grŵp i anfon erthyglau ymlaen at Katy Simmons neu Bronwen Martin, CNC i'w cynnwys yn rhifyn nesaf cylchlythyr Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

41. Gofynnodd Gareth pwy sy'n derbyn y cylchlythyr hwnnw a pha mor eang sydd angen iddo fynd. Dywedodd Bronwen y bydd y bobl hynny sydd wedi tanysgrifio iddo yn derbyn copi. Mae hefyd yn cael ei rannu drwy gyfryngau cymdeithasol CNC, a gofynnwn i holl aelodau Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ei rannu'n ehangach o fewn eich rhwydweithiau (mae'n hygyrch i'r cyhoedd, ffermwyr etc.). Gobeithio y bydd yn

cyrraedd cynulleidfa eang os ydym i gyd yn ei rhannu. Cynigiodd Bronwen anfon copi o argraffiad blaenorol i Gareth er mwyn rhoi syniad iddo o ba fath o wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y gorffennol.

Llygredd Amaethyddol Gorffennaf 04: Bronwen Martin, CNC i anfon copi o rifyn blaenorol o Gylchlythyr Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i Gareth Parry, UAC.

42. Gofynnodd Rhys a oes copi papur yn cael ei ddsbarthu. Dywedodd Bronwen ei fod yn ddigidol.

Eitem 8. Unrhyw Fater Arall

43. Cadarnhaodd Rhys fod cyfarfod mis Awst wedi ei ohirio oherwydd bod nifer o bobl i ffwrdd ar wyliau. Bydd y cyfarfod nesaf ar 4 Medi 2023 ar MS Teams.

44. Mae posibilrwydd o ymweliad safle ar gyfer cyfarfod mis Hydref, ond bydd mwy o fanylion yn dilyn. Dylai aelodau anfon unrhyw leoliadau ymweliad safle a awgrymir i flwch post Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

45. Soniodd Dennis ei fod o'r diwedd wedi derbyn copi o'r Cwestiynau Cyffredin (FAQ) ar gyfer Tir Tenant. Mae'n siomedig oherwydd ei fod yn union yr un fath â'r ddogfen ddrafft flwyddyn yn ôl, ac eithrio bod y gair drafft wedi'i dynnu allan. Nid yw'r holl broblemau a godwyd gennym ynglŷn â thenantiaid yn methu â chydymffurfio â'r rheoliadau oherwydd eu cytundebau tenantiaeth wedi cael sylw ac os dilynwyd y cyngor a roddwyd ar y ddogfen Cwestiynau Cyffredin, yna gallai tenant golli ei denantiaeth, ac mae'n ymddangos nad yw awduron y ddogfen Cwestiynau Cyffredin wedi ystyried ein pryderon, ac mae wir angen ei ddatrys. Gofynnodd Rhys a yw'r Gymdeithas Ffermwyr Tenantiaid yn bwrw ymlaen â hynny drwy sianeli eraill. Soniodd Dennis fod yna Weithgor Tenantiaeth sydd wedi cynnig llawer o argymhellion ac ar hyn o bryd efallai bod y llywodraeth yn dal i ystyried hynny. Rydym wedi bod yn trafod hyn gyda Llywodraeth Cymru ar lefel uwch am bum mlynedd yn ôl pob tebyg, ac nid oes unrhyw atebion wedi codi. Mae Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi bod yn gefnogol iawn ond mae bron yn broblem na ellir ei datrys, oherwydd bod y gyfraith tenantiaeth a'r rheoliadau yn gwbl groes i'w gilydd. Mae'n anodd iawn. Gofynnodd Rhys a allai Dennis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am ddatblygiadau ac a oes unrhyw beth rydych chi'n meddwl y gallai'r Is-Grŵp ei wneud i helpu. Dywedodd Dennis fod Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi ysgrifennu llythyr ar ran y grŵp at y Gweinidog yn amlinellu ein pryderon, ond nad oedd yn siŵr a gafodd ei ateb. Gofynnodd Rhys i Bronwen wirio hynny oherwydd byddem o leiaf yn disgwyl cydnabyddiaeth o hynny.

Llygredd Amaethyddol Gorffennaf 05: Bronwen Martin, CNC i edrych i weld a gafodd y grŵp ymateb i'r llythyr at y Gweinidog ynghylch pryderon am y ddogfen Cwestiynau Cyffredin ar Denantiaeth.

46. Ni chodwyd unrhyw fater arall.